# LC1215

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau yma’n gwneud diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 ac i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Perfformwyr) (Cymru) 2004 ("y Rheoliadau Rhestri").

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Yn rheoliadau 4(1) i 9 a 12, does dim cyfeiriad at enw’r Rheoliadau sy’n cael eu diwygio. Dylai hwnnw gael ei fewnosod fel yn y rheoliadau eraill ac fel sy’n gyson yn y rhai sy’n diwygio’r Rheoliadau Rhestri. Yn dechnegol, dydy’r penawdau uwchben y rheoliadau ddim yn rhan o’r rheoliadau (yn yr un modd â’r Nodyn Esboniadol a’r troednodiadau) ac ni ddylid dibynnu arnyn nhw at ddibenion dehongli felly. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

O ganlyniad i’r diwygiad a wneir gan reoliad 11(4), nid oes angen y gair "meet" yn y paragraff sydd yn cael ei ddiwygio. . [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Ym mharagraff 11A(1) sy’n cael ei fewnosod gan reoliad 11, mae "Wales" i’w weld yn enw’r Rheoliadau Taliadau yn y golofn Saesneg ond nid yn y golofn Gymraeg. Mae’r un peth yn wir mewn perthynas â Rheoliadau eraill ym mharagraff 11A(3)(c)(iv). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Hefyd ym mharagraff 11A(1) sy’n cael ei fewnosod gan reoliad 11, yn y diffiniad o "necessary drugs, medicines and appliances", mae iaith ryw-benodol ("he") i’w gweld yn y ddwy golofn. Mae hyn yn codi hefyd yn rheoliadau 11(31)(a) ("his"); 16(b) ("him") a 18 ("him"). [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

Yn is-baragraff (5)(a)(i) o’r paragraff 11A newydd, mae’r testun yn cyfeirio at reoliad 8(1) o’r Rheoliadau Taliadau, ac mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio at reoliad 7(1). [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Ym mharagraff 18 o reoliad 11, y ddarpariaeth a hepgorir, yn ôl y disgrifiad, yw 73 nid 74. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Ym mharagraff (28) o reoliad 11, mae paragraff newydd yn cael ei fewnosod mewn perthynas â therfynu contractau. Mae’r ymadrodd cychwynnol yn darllen "Ar ôl paragraff 105", ond mae’r mewnosodiad honedig yn dechrau â "107A". Mae’r cyd-destun yn dangos mai "105A" ddylai fod yma. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu fân wallau teipograffyddol yw’r rhain i gyd a byddai’n addas eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae mân bwyntiau fformadu wedi’u nodi hefyd i’w cywiro wrth gyhoeddi’r Rheoliadau.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 7 Chwefror 2006